| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION |
| **DYDDIAD** | 1 MEHEFIN 2011 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MÔN (CYFYNGU CYFLYMDER I 40MYA)(AMRYFAL LEOLIADAU CARMEL A TREFOR) 2011 |
| **PWRPAS** | RHOI MANYLION AM Y GWRTHWYNEBIADAU A DDERBYNIWYD YN DILYN HYSBYSEBU'R GORCHYMYN TRAFFIG ARFAETHEDIG |
| **ADRODDIAD GAN** | PENNAETH GWASANAETH (PRIFFYRDD A RHEOLI GWASTRAFF) |
| **GWEITHREDU** | YSTYRIED Y GWRTHWYNEBIAD A PHENDERFYNU A DDYLID CADARNHAU'R GORCHYMYN AI PEIDIO |

## 1.0 CEFNDIR

Paratowyd y Gorchymyn arfaethedig mewn ymateb i amryfal geisiadau gan y Cyngor Cymuned, yr Aelod Lleol a thrigolion Carmel am ostwng y cyfyngiad cyflymder. Ar hyn o bryd, y cyfyngiad cyflymder ar y lôn hon yw'r un cenedlaethol sef 60mya.

Mae copi o'r Rhybudd o Gynnig a'r cynlluniau yn rhoddi manylion am y cyfyngiad arfaethedig ynghlwm.

1.1 Yn ystod yr ymgynghori cychwynnol, ni chafwyd yr un gwrthwynebiad i'r Gorchymyn arfaethedig.

1.2 Nid yw'r Gwasanaethau Brys wedi gwrthwynebu'r cynnig.

1.3 Yn ystod y cyfnod o hysbysebu ffurfiol, derbyniwyd un gwrthwynebiad mewn perthynas â'r B5112 yng Ngharmel (Copi ynghlwm).

Mae'r gwrthwynebiad yn seiliedig ar y rhesymau a ganlyn:-

(a) Dim angen am y cyfyngiadau cyflymder hyn. Lle mae ardaloedd adeiledig, mae natur droellog y lôn yn golygu bod pobl yn arafu'n awtomatig. Mae

gwelededd yn dda ar y darnau hir clir o'r ffordd ac nid oes unrhyw beryglon mawr.

(b) Y gost fyddai ynghlwm wrth Orchmynion o'r fath o safbwynt gwaith cyfreithiol, swyddfa ac arwyddion.

## 2.0 Y SEFYLLFA GYFREDOL

2.1 Nid yw'r gwrthwynebydd y sonnir amdano yn 1.3 yn fodlon bod y darpariaethau yn y Gorchymyn yn dderbyniol.

2.2 Mae'r ffordd wedi cael ei hasesu yn seiliedig ar y meini prawf cyfredol ar gyfer sefydlu Cyfyngiadau Cyflymder yn y Canllawiau a gyhoeddwyd yn Hydref 2009 'Setting Local Speed Limits in Wales'.

2.3 Mae cyfyngiad cyflymder o 40mya yn gywir ar y rhan honno o'r ffordd lle mae'r Awdurdod Priffyrdd o'r farn bod modd cyfiawnhau'r cyfyngiad ar sail geometreg y ffordd, lefel y datblygiad a'i defnydd gan ddefnyddwyr bregus oherwydd diffyg cyfleusterau i gerddwyr.

2.4 Y cyfraddau gwrthdrawiadau ar hyn o bryd yw 48.7 o wrthdrawiadau fesul miliwn o km cerbydau a chafodd y cyflymder ar gyfartaledd a'r cyflymder ar y 85ain ganradd eu cofnodi fel 33mya a 39mya yn y drefn honno. Argymhellir cyfyngiad cyflymder o 40mya oherwydd bod y rhan hon o'r lôn yn cwrdd â'r gofynion yn seiliedig ar lefel y datblygiad, nifer uchel y troadau neu'r cyffyrdd, lefel uchel o wrthdrawiadau a symudiadau gan ddefnyddwyr ffyrdd bregus.

## 3.0 CASGLIAD

3.1 Paratowyd y cyfyngiad arfaethedig mewn ymateb i lefel y pryder cyhoeddus – Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd, yr Aelod Lleol a deiseb wedi'i llofnodi gan drigolion Carmel sydd wedi dwyn sylw at eu pryderon ac sy'n cynrychioli lefel y teimlad yn y gymuned leol.

3.2 Bydd y gostyngiad arfaethedig yn y cyfyngiad cyflymder yn gwneud y ffyrdd yn ddiogelach i drigolion lleol, cerddwyr a beicwyr.

3.3 Bydd y gostyngiad yn y cyfyngiad cyflymder yn gostwng y tebygolrwydd y bydd damwain yn digwydd a difrifoldeb damwain petai yn digwydd.

3.4 Cyflwynir y gofynion isaf o safbwynt arwyddion ar gyfer gorfodaeth gyfreithiol ac mae'r Gorchymyn wedi cael ei baratoi ar gyfer ymgynghori yn ei gylch a'i hysbysebu gyda'r cynnig ar gyfer y B5109 yn Nhrefor i ostwng costau.

3.5 Mater i'r Pwyllgor fydd penderfynu a ydynt yn teimlo bod modd cyfiawnhau'r gwrthwynebiad ai peidio.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor, os ydyw'n fodlon nad yw'r gwrthwynebiadau'n arwyddocaol ac nad ydynt yn adlewyrchiad o'r gefnogaeth gyffredinol, yn cefnogi'r cynnig yn unol â'r Gorchymyn a hysbysebwyd a'r cynlluniau.

Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth
(Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)

52

[redacted]

26th. February 2011.

**Ref: Proposed speed restrictions B5112.**

144677

The Head of Highways & Transport,
Anglesey County Council,
Llangefni.

Dear Sir,

I would like to register my objection to the introduction of further speed limits along the B5112 (Not that I am expecting the slightest bit of notice will be taken of my remarks as a local resident and driver with around 50 years experience).

My objections are on the following grounds:

1) **Necessity.**
I can see no requirement for these limits. Where built up areas exist, the twisting nature of the road lends itself to an automatic reduction in speed. The long, clear stretches provide good visibility and do not present any great hazard.

2) **Cost.**
Having been involved in local government, I am well aware of the enormous cost involved with such orders, in terms of legal and office work plus the cost of signage, etc.

This issue of cost, always important, is particularly crucial at this time. Your authority ***should*** be working towards all possible means of reducing non-urgent costs – and yet we hear of another substantial increase in Council Tax on the way.

On another aspect, costs could further be reduced by scrapping any further plans for those abominable speed humps which achieve little, other than interrupting emergency services and damaging vehicle suspensions.

Yours faithfully,

[redacted]

Les. Hayward.

ANGLESEY COUNTY COUNC.
- 2 MAR 2011
FEIL/FILE 025.10.25
AT/TO EL
PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH AC EIDDO

DEWI R. WILLIAMS B.Sc., C.Eng., MICE, MIHT
Pennaeth Gwasanaeth - Priffyrdd a Rheoli Gwastraff
Head of Service - Highways and Waste Management

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

ffôn / tel: (01248) 752300 ffacs / fax: (01248) 724839

Gofynnwch am - Please ask for: Mr Elfed Lewis

ffôn / tel: (01248) 752374

E-Bost - E-mail: pem@anglesey.gov.uk
Ein Cyf - Our Ref. 025.10.25/EL/FWJ/PEM166672
Eich Cyf - Your Ref.

[redacted]

15th March, 2011

Dear Sir,

**RE: PROPOSED SPEED RESTRICTION B5112 CARMEL**

Thank you for your letter of the 26th February, 2011 relating to the above mentioned proposal, and I apologise for the delay in replying.

Your comments regarding the proposal are noted, but contrasts starkly with the views of the Community Council, Local Member and those residents of Carmel who have requested speed restrictions in the past. This Order has been prepared in response to complaints received over a number of years regarding excessive speeding in the village. Similarly with traffic calming measures such as speed humps which are only introduced after extensive consultation with local residents and emergency services.

The Authority is mindful of the cost implications of processing traffic regulation Orders, and where possible will combine orders such as the B5112 Carmel and B5109 Trefor to reduce administrative and advertising costs when introducing orders.

As you are no doubt aware all unresolved objections received during the consultation and advertising stage of a traffic order are reported to the Planning and Orders Committee for their deliberation. To date I have only received one recorded objection to the B5112 proposal.

I would be grateful if you could confirm that you wish to pursue the objection to the committee stage and I look forward to your response in due course.

Yours faithfully,

[redacted]

**p.p. DEWI R. WILLIAMS**
**HEAD OF SERVICE (HIGHWAYS AND WASTE MANAGEMENT)**

13

[redacted]

16th. March, 2011.

**Ref: Proposed speed restrictions B5112.**
**Your ref: 025.10.25/EL/FWJ/PEM166672**

F.A.O. Mr. E. Lewis,
The Head of Highways & Transport,
Anglesey County Council,
Llangefni.

Dear Mr. Lewis,

Many thanks for your reply to my letter of objection (26/2/11).

I do understand your comments regarding feedback which your department has received from the local member & Com. Council, but in regard to this I would point out that it is only those with a grouse who normally raise issues with Councillors. I would suggest that the silent (and content) residents probably outweigh those who complain about alleged speeding.

I make this point with some knowledge of the matter, having served many years as a Councillor at Parish & District level. I have never experienced a resident contacting me to say that they were ***happy*** with the status quo!

Frankly, the reason for my objection is not the speed limit per se – I doubt it will make the slightest difference, given the self-regulating nature of the road. What does concern me is that trivial but expensive items such as this are wasting your valuable resources and I believe that your energy and available cash could be better spent on for example, highway repairs and improvement. In this respect I commend your department for doing a good job.

To answer your final paragraph – I would be grateful if this could be carried forward to the committee stage, as the points I raise are I believe, fair and a matter of concern.

Yours faithfully,

[redacted]

Les. Hayward.

E OF ANGLESEY COUNTY COUNC

21 MAR 2011

FFEIL/FILE 025.10.25
AT/TO EL

# RHYBUDD O FWRIAD / NOTICE OF PROPOSAL

## GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MON/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL (AMRYW FFYRDD CARMEL A TREFOR ) (CYFYNGIAD CYFLYMDRA 40mya) 2011

RHODDIR RHYBUDD TRWY HYN fod Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 84(1) + (2) o Ddeddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn fydd cyfyngu cyflymdra i 40mya i unrhyw gerbyd sy'n gyrru i'r naill gyfeiriad ar hyd

B5112 Carmel
O bwynt 529m i'r de orllewin o'r gyffordd gyda'r Ffordd Dosbarth 3 C104 ger Tafarn y Botel i bwynt 245m i'r de de orllewin o'r gyffordd gyda'r Ffordd Ddiddosbarth OR121 ger Pen y Groeslon.
Ffordd Diddosbarth OR121 Carmel
O'r gyffordd gyda'r B5112 ger Pen y Groeslon i bwynt 130m i'r gogledd o'r gyffordd gyda'r Ffordd Diddosbarth OR120 ger Penterfyn.
B5109 Trefor
O bwynt 596m i'r gorllewin o'r gyffordd gyda'r B5112 i bwynt 194m i'r dwyrain o'r gyffordd honno.
B5112 Trefor
(a) O'i chyffordd gyda'r B5109 Trefor am bellter o 70m i gyfeiriad y gogledd ddwyrain.
(b) O'i chyffordd gyda'r B5109 Trefor am bellter o 102m i gyfeiriad y de de orllewin.
Ffordd Dosbarth 3 C100
O'r gyffordd gyda'r B5109 ger Plas Bach am bellter o 78m i gyfeiriad y gogledd.

Mae'r Gorchymyn drafft, sydd ynghyd â chynlluniau yn dangos y ffyrdd yr effeithir arni/arnynt a Datganiad o resymau'r Cyngor dros argymell gwneud y Gorchymyn, ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn :-

(a) Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, rhwng 9.30a.m. a 4.00p.m. Llun i Gwener.
(b) Y Llyfrgell, Amlwch a Caergybi yn ystod oriau gwaith arferol.

Os dymunwch wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig anfonwch eich gwrthwynebiad mewn ysgrifen gan gynnwys eich rhesymau dros wneud hynny i'r isod erbyn 18 Mawrth 2011. Bydd rhain ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

## CYNGOR SIR YNYS MON/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS CARMEL AND TREFOR) (40mph SPEED RESTRICTION) ORDER 2011

NOTICE IS HEREBY GIVEN that Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council proposes to make an Order under Section 84(1) + (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the Order will be to provide a 40mph speed restriction for all motor vehicles travelling in either direction along
B5112 Carmel
From a point 529m south west of the junction with the Class 3 Road C104 near Tafarn y Botel to a point 245m south south west of the junction with the Unclassified Road OR121 near Pen y Groeslon.
Unclassified Road OR121, Carmel
From the junction with the B5112 near Pen y Groeslon to a point 130m north of the junction with the Unclassified Road OR120 near Penterfyn.
B5109 Trefor
From a point 596m west of the junction with the B5112 to a point 194m east of that junction.
B5112 Trefor
(a) From its junction with the B5109 at Trefor for a distance of 70m in a north easterly direction.
(b) From its junction with the B5109 at Trefor for a distance of 102m in a south south westerly direction.
Class 3 Road C100
From the junction with the B5109 near Plas Bach for a distance of 78m in a northerly direction.

The draft Order together with maps showing the lengths of roads concerned and a Statement of the Council's reasons for proposing to make the Order may be examined at :-

(a) The Council Offices, Llangefni, between the hours of 9.30a.m. and 4.00p.m. Monday to Friday.
(b) The Library, Amlwch and Holyhead during normal business hours.

If you wish to object to the proposed Order you should send your objection in writing specifying the ground thereof to the undersigned at the address specified by 18th March 2011. These will be available for public inspection.

Dyddiedig ..............................24/02/2011.................................. Dated

Arwyddwyd ........[redacted]............Signed

ROBYN W JONES
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Legal Services Manager
Swyddfeydd y Cyngor / Council Offices
Llangefni, Ynys Mon LL77 7TW

Am fwy o fanylion ynghlyn â'r uchod ffoniwch Adran y Rheolwr Gyfarwyddwr, Adain Gyfreithiol, Llangefni, 752591, rhif cyfeirnod HT-015021-EJ

For further information regarding the above, please telephone the Managing Director's Department, Legal Section, Llangefni 752591 ref. no. HT-015021-EJ




Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
© Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. LA100023412, 2010.
This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. LA100023412, 2010.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

*CYNGOR SIR YNYS MÔN*
*ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL*
*Swyddfa'r Sir*
*LLANGEFNI*
*Ynys Môn - Anglesey*
*LL77 7TW*

GORCHYMYN TRAFFIG ARFAETHEDIG
CYFYNGIAD CYFLYMDRA 40 MYA
B5109 A B5112 TREFOR.
PROPOSED TRAFFIC ORDER
40 MPH SPEED LIMIT
B5109 AND B5112 TREFOR.




Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran-Rheolwr-Llyfrfa-Ei-Mawrhydi © Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu-heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. LA100023412, 2010.
This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. LA100023412, 2010.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

GORCHYMYN TRAFFIG ARFAETHEDIG
CYFYNGIAD CYFLYMDRA 40 MYA.
B5112 A FFORDD DIDDOSBARTH,CARMEL.
PROPOSED TRAFFIC ORDER
40 MPH SPEED LIMIT.
B5112 AND UNCLASSIFIED ROAD,CARMEL.